

Aseiad Ysgrifenedig Tystysgrif Sgiliau Iaith



Pryd?




- Dydd Mercher 4ydd o Fai (Ar y Campws)
- Arholiad i ddechrau am 2 o'r gloch.



Mewngofnodi

Byddwch chi'n derbyn dolen i 'Surpass'



Mewnbynnu Cod Allwedd

Cyflwyno Prawf

Mewnbynnwch eich Cod Allwedd HTML 8 nod.

A B C D 1 2 3 4

✓ lawn

✓ Gwrio System ⚙️ Dewisiadau

Surpass, Pweru'r Asesiad

Cod Alleddol Personol fan hyn.



Mae CBAC wedi paratoi ffug brofion ar-lein i ymarfer

https://web.download.wjec.co.uk/surpass/package-d-exams/tsi_demo/launch_html_delivery.html

https://web.download.wjec.co.uk/surpass/packaged-exams/tsi_2021/index.html

Hyd y Papur



- 1 awr 30 munud

Awgrymiadau

Cwestiwn 1 – 20 munud

Cwestiwn 2 a 3 - tua 30 munud yr un.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gadael amser ar y diwedd i wirio eich gwaith.

Cwestiwn: C1
Adran: 1



Cyfanswm Amser ar ôl ...
01:29:52

Prawf: Tystysgrif Sgiliau Iaith Enghreifftiol

- 1
- 2
- 3

1. Darn i'w gywiro


Mae 2 well um rhob brawddeg yn y darn isod, a chofnodyn a 22 o wellau. Mid eidd eidd i chi...

Offer Iaith

Yn yr arholiad bydd hawl gyda chi i ddefnyddio pecyn Cysill / Cysgeir ar eich cyfrifiadur neu Cysill ar-lein a Geiriadur Bangor yn unig.

<https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/>
<http://geiriadur.bangor.ac.uk/>

Cwestiwn 1 – Cywiro



Asesiad Ysgrifenedig Tasg 1 – Cywiro

Aseiad Ysgrifenedig

Tasg 1 – Cywiro

- Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys **tua 22 o wallau** gramadegol. Bydd disgwyl i chi gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn **print trwm**.
- Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon mae'n rhaid eu cywiro i ennill y marc.
- Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- Byddwch yn ofalus – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau hefyd neu bydd angen i chi ddewis opswn cywir.



Meini Prawf Tasg 1

Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn.

Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol

*(cyfanswm posibl, 20 marc):
(20% o farciau'r papur)*



Cyngor wrth ateb Tasg 1



- Copiwch a gludwch y paragraff o dan y cwestiwn gwreiddiol.
- Yna gwnewch eich newidiadau mewn print trwm (bold)
- Does dim angen newid arddull y darn dim ond cywiro gwallau yn unig.
- Peidiwch a threulio gormod o amser ar y cwestiwn hwn. 20 o farciau yw gwerth y cwestiwn felly y cyngor ydy tua 20 munud ar y fwyaf.
- Gallwch chi ateb y cwestiynau y yr asesiad mewn unrhyw drefn.
- Os ydych chi'n cywiro gormod fyddwch chi ddim yn colli marciau. Dim ond y cywiriadau cywir sy'n cael eu marcio.

Math o wallau

Mae'r math o wallau sy'n codi yn y cwestiwn hwn yn gallu bod yn amrywiol iawn. Ond dyma i chi rai syniadau:



- Amser cywir y ferf
- Ystyr gair /geiriau bach
e.e. mai / mae, yw / i'w, mewn / yn
- Rhagenwau
- Arddodiaid
- Berfenwau a'r arddodiaid
- Sillafu / gwallau teipio
- hwn / hon
- Treiglo ar ôl enw benywaidd. e.e. y gath ddu hon.

- Treigladd meddal ar ôl Cyfarchion e.e. Prynhawn da bawb.
- Trefnolion e.e. Dyddiadau
- Rhifau + treigladau
- Geiriau unigol / lluosog
- Idiomau / ymadroddion Cymreig.

Cwestiwn 2 – Trawsieithu



Trawsieithu [40]

Cwestiwn Enghreifftiol

*Ymddangosodd yr erthygl ganlynol mewn cylchgrawn yn ddiweddar. Gofynnodd eich pennaeth i chi **grynhoi ei chynnwys**, er mwyn ei rhoi ar wefan eich gweithle. Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.*

Meini prawf

- **Crynhoi** y darn i'r Gymraeg nid cyfieithu gair am air.
- Arholwr yn chwilio am **5 prif pwynt**.
- Gallwch chi ddefnyddio Cysill / Cysgeir i'ch cynorthwyo.


• 40 marc

Cywirdeb 10

Ystod 10

Addasrwydd y testun 10

Pwyntiau allweddol (2 x 5) 10



Cwestiwn 3 – Ysgrifennu Rhydd



Ysgrifennu Rhydd [40]

Cwestiwn Enghreifftiol

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch i berswadio cyflogwyr fod yr iaith Gymraeg yn ddefnyddiol yn y gweithle. Gofynnwyd i chi ysgrifennu darn i'w roi mewn taflen a anfonir at gyflogwyr i gefnogi'r ymgyrch. Ysgrifennwch y darn gan gyfeirio at y pwyntiau isod, (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- eich cefndir ieithyddol;
- y maes yr hoffech weithio ynddo;
- y manteision i chi o allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Un enghraifft o'ch profiad lle bu sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol;
- y manteision i gyflogwyr o benodi staff â sgiliau Cymraeg.

Cyn-bapurau.

- Y ffordd orau i ymarfer ydy ymarfer ateb cyn-bapurau. Mae croeso i chi anfon eich atebion ar e-bost i dderbyn adborth.
- Gallwch chi gywiro'r paragraff ac yna gwirio eich gwaith drwy edrych ar y copïau sy'n cynnwys atebion.

Cofiwch does dim rhaid rhoi rhesymau – dim ond gywiro'r gwall i ennill y marciau.

- Isafswm o dros hanner marciau i lwyddo yn y papur.



Enghraifft CBAC (ar-lein)

- <https://web.download.wjec.co.uk/surpass/packaged->

Hoffech chi'n byw yn America a'r hyn o bryd, tybed? Mae ein hobsesiwn â'r lle'n mynd yn ôl dros amser maeth, ac mae'r cysylltiadau'n rhy gormod i'w rhestru. Cymeroch er enghraifft yr iaith Seisnig. Os gwrandewch chi ar raglenni teledu, mae'r iaith y siaredir gan actorion Americanaidd yn dra gwahanol o iaith actorion o Loegr. Mae'r arbenigwyr ieithyddol yn ragweld y byddwn ni'n siarad â'r un acen ymhen canrif neu lau.

Mae hi'n edrych yn debygol fod gwleidyddwyr y wlad hon yn dilyn yr un trywydd â'r un a welwyd yn yr Unol Daleithiau rhwng 2016 â 2020. Yn lle trafod, cyfaddawdu a dod mewn cytundeb, mae aelodau etholedig yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol yn erbyn eu gilydd. Dyna reality bod yn wleidydd yn yr hunfed ganrif ar hugain. Yn anffoddus, trodd y gwaith o lywodraethu'n gêm yw chwarae, nid yn alwedigaeth. Rhan o'r broblem yw bod gwir busnes pwerus aden dde'n rheoli'r papurau newydd – y dynion yn y dirgel sy'n gwthio'r farn gyffredin i gyfeiriadau sy'n ei gynorthwyo i wneud elw. Rhan arall o'r broblem yw bod yr arweinydd a fu yn y grym yn America'n corddi'r dyfroedd, ond o leuad fydd dim rhaid gwranddo ar hwnnw mwyach.

Atebion

Hoffech chi'n byw = Hoffech chi fyw

a'r hyn o bryd = ar hyn o bryd

amser maeth = amser maith

...'n rhy gormod = ...'n ormod [derbyn: rhy niferus i'w rhestu...]

Cymeroch = Cymerwch

iaith Sesinig = Saesneg

yr iaith y siaredir = a siaredir

gwahanol o = gwahanol i

yn ragweld = yn rhagweld

canrif neu lau = neu lai

gwleidyddwyr = gwleidyddion

rhwng 2016 â = rhwng 2016 a 2020

dod mewn cytundeb = dod i gytundeb

yn erbyn eu gilydd = ei gilydd

reality = realiti [derbyn 'gwirionedd' neu gyfystyron eraill.]

yr hunfed = yr unfed [Cysill yn camarwain – y hunfed!]

yn anffoddus = yn anffodus

gêm yw chwarae = gêm i'w chwarae

gwir busnes = gwŷr busnes [Cysill yn camarwain yma]

ei gynorthwyo = eu cynorthwyo

a fu yn y grym = a fu mewn grym

ond o leuad = o leia(f)



- Y ffordd orau i ymarfer ydy ateb cyn-bapurau. Cofiwch edrych ar yr atebion model hefyd.
- Mae croeso i chi hefyd anfon eich atebion ar e-bost i dderbyn adborth pellach.